

No.

## PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 4 Ebrill, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd G.D.D. Carroll (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr Mrs. S.M. Hanks, K.F. McCaffer, M.J.G. Morgan, Mrs. S.D. Perkes a M.R. Wilson

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr B.T. Gray a L.O. Rowlands

1013 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

1014 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr V.J. Bailey (Cadeirydd) a N.C. Thomas.

1015 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd, 2021 fel cofnod cywir.

1016 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

1017 RHAGLEN SEFYDLU TGCH I AELODAU 2022 (PW) –

Cyflwynodd Rheolwr Gweithredol TGCh yr adroddiad gan ddweud y byddai 54 o Aelodau Etholedig a 13 o Aelodau Cyfetholedig (cyfanswm o 67) yn cael Offer TGCh corfforaethol i gyflawni eu rolau o fewn y Cyngor yn dilyn yr Etholiad Llywodraeth Leol nesaf ar 5 Mai, 2022. Byddai angen i'r Aelodau gadw at y Cod Ymddygiad TGCh ac yn fuan ar ôl 5 Mai 2022, byddai disgwyl iddynt hefyd fynd i Ddigwyddiad Sefydlu Aelodau hanfodol naill ai ddydd Llun 9 neu ddydd Mawrth 10 Mai wedi cadw lle ar y digwyddiad cyn yr etholiad fel ymgeisydd.

No.

Yn y Digwyddiad Sefydlu, byddai pob Aelod cymwys yn cael pecyn TGCh corfforaethol a gweithdy rhagarweiniol ar nodweddion offer a meddalwedd allweddol sydd fwyaf perthnasol i'w gwaith yn y Cyngor yn unol â pholisïau ac arferion gwaith cyfredol y Cyngor.

Yn ogystal, yn y Digwyddiad Sefydlu, byddai'r Aelodau'n gallu trefnu slot i fynd i'r Sesiynau TGCh Galw Heibio ar Lwyfannau Cyfarfodydd ddydd Mercher 11 a/neu ddydd Iau 12 Mai, os oeddent yn teimlo bod angen cymorth ychwanegol arnynt cyn defnyddio Microsoft TEAMS a CIVICO cyn cynnal sesiynau Datblygu Aelodau a chyfarfodydd pwyllgor ffurfiol.

Yn ogystal â sesiynau hyfforddi o bell wedi'u hwyluso gan Swyddogion y Cyngor, byddai hefyd angen i'r Aelodau gwblhau modiwlau e-ddysgu hunan-astudio ar-lein yn rhan o'r Rhaglen Sefydlu a Datblygu Aelodau. Felly, byddai pob Aelod Etholedig yn gallu defnyddio porthol dysgu ar-lein y Cyngor; iDev.

Gofynnodd y Cyngorydd Wilson a oedd yn bosibl cynnig cymhwyster Microsoft 365 achrededig i'r Aelodau iddynt ei gwblhau. Cytunodd Rheolwr Gweithredol TGCh i ymchwilio i hyn. Dywedodd Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Democrataidd y byddai hyn hefyd yn dibynnu ar sgiliau TGCh y garfan newydd ac y gellid nodi gofynion tebyg hefyd dan y broses Adolygu Datblygiad Personol Aelodau.

Yn dilyn ymholiad gan y Cyngorydd S.M. Hanks, cadarnhaodd Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Democrataidd y byddai pob Aelod yn cael gwybod yn fuan am y trefniadau ar gyfer dychwelyd eu hoffer TGCh cyfredol (y mae angen adnewyddu'r rhan fwyaf ohono) o ystyried y ffaith bod offer newydd yn cael ei roi yn ystod y cyfnod sefydlu.

Gofynnodd y Cyngorydd Wilson hefyd am gael manylion manyleb benodol y gliniaduron a'r feddalwedd newydd.

**PENDERFYNWYD –**

- (1) Dosbarthu manylion y dyfeisiau gliniaduron newydd oedd i'w prynu a meddalwedd perthnasol i Aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth.
- (2) Cymeradwyo'r Cynllun Anwytho TGCh Aelodau arfaethedig, fel y'i nodir yng nghorff yr adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau a gofyn am gymeradwyaeth i drefniadau Sefydlu Aelodau a'r Rhaglen Datblygu Aelodau barhaus a'u cyflwyno wedyn.

1018 RHAGLEN SEFYDLU A DATBLYGU AELODAU 2022 –  
DIWEDDARIAD (PGD) -

Tynnodd Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Democrataidd sylw at y ffaith bod y Rhaglen Sefydlu a Datblygu Aelodau gynhwysfawr a gynhaliwyd yn dilyn Etholiad Llywodraeth Leol 2017 wedi llywio'r strwythur ar gyfer atodlen 2022.

Ar 12 Gorffennaf 2021, ystyriodd y Pwyllgor Raglen Sefydlu a Datblygu Aelodau ddrafft a gafodd wedyn ei chymeradwyo gan y Pwyllgor a'i chyfeirio, gydag awgrymiadau, at y Cabinet i'w chymeradwyo.

Ar 19 Gorffennaf 2021, cymeradwyodd y Cabinet holl awgrymiadau'r Pwyllgor a chymeradwyodd yr atodlen ddrafft dan y Weithdrefn Penderfyniadau Brys fel y nodir yn Adran 14:14 Cyfansoddiad y Cyngor i sicrhau y gallai gwaith ar yr atodlen fynd rhagddo dros gyfnod haf 2021.

Fel y rhagwelwyd ac y nodwyd yn flaenorol, roedd Atodlen Sefydlu a Datblygu Aelodau 2022 wedi parhau i ddatblygu ers iddi gael ei hystyried ddiwethaf gan y Pwyllgor wrth baratoi ar gyfer ei chyhoeddi ar 6 Ebrill 2022 i'w rhannu gyda'r holl ymgeiswyr sy'n sefyll yn yr Etholiad Llywodraeth Leol ar 5 Mai. Roedd y fersiwn ddiweddaraf o'r atodlen i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad i'r Pwyllgor ei hystyried cyn ei chyhoeddi.

Yn Atodiad C yr adroddiad cafwyd Atodlen Sefydlu a Datblygu Aelodau Cyfetholedig ddrafft, a gynhyrchwyd i'w rhannu ag unigolion perthnasol ar 6 Ebrill, 2022.

Yn dilyn ymholiad ynglŷn â'r sesiynau ymgeiswyr a gynhaliwyd cyn cwblhau'r papurau enwebu, dywedodd Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Democrataidd fod tair sesiwn wedi'u trefnu, fodd bynnag, roedd y rhain wedi'u huno'n un sesiwn oherwydd mai dim ond tri aelod o'r cyhoedd oedd wedi cadarnhau presenoldeb. Cafwyd diolch gan y tri a oedd wedi bod yn bresennol am y wybodaeth ddefnyddiol a'r cyfle a roddwyd.

Manteisiodd y Cyngorydd Wilson ar y cyfle i ofyn am swyddog TGCh penodedig ar gyfer yr Aelodau wrth symud ymlaen a dywedodd Rheolwr Gweithredol TGCh fod trafodaethau'n cael eu cynnal, fodd bynnag, dywedodd Prif Swyddog Craffu a Gwasanaethau Democrataidd, cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud, yn hyn o beth ac o ran unrhyw faterion yr oedd yr Aelodau'n dod ar eu traws, rhai TGCh neu fel arall, y dylid cysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd yn y lle cyntaf er mwyn gallu cadw cofnod o geisiadau.

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo Rhaglen Sefydlu a Datblygu Aelodau 2022, sydd ynghlwm fel Atodiad A i'r adroddiad.

(2) Cymeradwyo'r Rhaglen Sefydlu a Datblygu Aelodau Cyfetholedig ddrafft 2022, sydd ynghlwm fel Atodiad C i'r adroddiad,

No.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Hwyluso'r gwaith dilynol o gyflwyno Digwyddiadau Anwytho Aelodau a Rhaglen Datblygu Aelodau barhaus.